

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

### Cofnodion cyfarfod 12 Rhagfyr 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

<b>PRESENNOL</b>		
Aled Emyr	Einir Wyn Coates	
Casi Roberts	Daniel Llewelyn Williams	
Sarah Riley	Nerys John	
Peter Simpson	Eifion Williams	
Gruff John		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir Gareth Griffiths	
<b>1.0</b>	<b>GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU</b>	
1.1	Agorwyd y cyfarfod misol gan Y Cadeirydd Daniel Williams. Ymddiheuriadau: Iestyn Harris, Mei Gwilym, a Mair Bebb Jones. Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am gadeirio yn ei absenoldeb yn y cyfarfodydd diweddar. Croesawodd y Cadeirydd Eilwen Jones o'r Gwasanaeth Cynllunio at Atgyfwng Rhanbarthol.	
2.0	Cyflwynodd Ms Eilwen Jones gyflwyniad ar y Canllaw Cynllun Argyfwng Cymunedol gan gynnwys eglurhad sut mae'r cynllun wedi dod i fodoloaeth. Dywedodd pam dylid sefydlu Tim Ymateb Cymunedol. Gwirfoddolwyr fyddai aelodau o'r Tim. Byddai rôl i'r tim i ddechrau i ddatblygu'r Cynllun Argyfwng Cymunedol ac yna rôl yn ystod y diwgwyddiad. Roedd yr aelodau yn cytuno bod y cynllun yn fenter da ac oherwydd bod cynllun llifogydd cymunedol eisoes yn bodoli penderfynwyd i symud ymlaen i gymryd rhan yn y fersiwn prawf. Bydd angen nawr i'r aelodau trafod y cynllun gyda aelodau o'r gymuned a fyddai o fudd mewn gwirfoddoli i fod yn rhan o'r cynllun. Cyngynted a bydd aelodau o'r gymuned wedi cynnig eu gwasanaeth bydd angen cael cyfarfod gyda Eilwen Jones i symud ymlaen i sefydlu y cynllun.	AELODAU O'R CYNGOR
<b>3.0</b>	<b>ADRODDIAD Y CYNGHORYDD</b>	
	Dim adroddiad ysgrifennedig. Y Cynghorydd Sir wedi anfon at y Cyngor i hysbysu'r aelodau bod Adran Ymgynhori Cyngor Gwynedd yn archwilio'r llifogydd ym Mhen y Bryn ac i lawr i Ffordd Bangor. Ni fydd yn gwneud sylw o'r mater hyd nes bydd wedi derbyn yr adroddiad yn dilyn yr archwiliad.	
<b>4.0</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b>	
	Dim	
<b>5.0</b>	<b>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL</b>	
5.1	Derbyniwyd gwariant mis Tachwedd 2017 a derbyniwyd adroddiad am y mis..	
5.2	Derbyniwyd lythyr ynglyn a'r Praesept oddi	<b>SWYDDOG</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	wrth Gyngor Gwynedd, bydd angen penderfynu arno erbyn diwedd mis Ionawr 2018. Gofynwyd i'r aelodau ystyried y mater erbyn y cyfarfod nesaf. Mae llawer o'r arian wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau yn barod. Bydd angen cadarnhau y cyllid ar gyfer 2018-2019 yn y cyfarfod misol nesaf.	<b>ARIANNOL</b>
5.3	Dywedodd y Swyddog Ariannol bod angen talu anfonebau am yr adnoddau sydd wedi eu prynu ar gyfer y gegin.	<b>SR/SWYDDOG ARIANNOL</b>
<b>6.0</b>	<b>CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL</b>	
6.1	Derbyniwyd cofnodion 10 Tachwedd 2017 fel rhai cywir. Llofnodwyd y Cofnodion	
<b>7.0</b>	<b>ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD</b>	
7.1	Dywedodd y Cadeirydd bod cyfarfod wedi bod yn y neuadd. Mae'r rhai elfennau o'r rhaglen waith wedi ei gwblhau. Mae angen sicrhau bod yr anfonebau yn cyfateb i'r pris oedd wedi ei nodi.	<b>DW</b>
7.2	Rhodddwyd eglurhad gan y Cadeirydd i'r adroddiad Snowdonia Fire Protection ynglŷn â y darganfyddion yn y neuadd. Wrth sicrhau bod y system yn cyrraedd y safon yna bydd asesiad risg y neuadd yn nodi'n gywir safon y sustem a byddai'r Cadeirydd yn barod i arwyddo'r asesiad. Penderfynwyd bod y Clerc yn gofyn i SFP symud ymlaen i wneud y gwaith.	<b>CLERC</b>
7.3	Rhodddwyd eglurhad bod Is-bwyllgor cyflogaeth wedi cysylltu a Gwilym Rippon sydd yn gweithio ar ran yr SLCC ar gyfer cael gwerthuso cyflogau swyddogion y Cyngor. Mae adroddiad Mr. Rippon bellach wedi ei dderbyn. Cost yr adroddiad yw £250. Cytunwyd bod yr anfoneb yn cael dalu. Fel rhan o wasanaeth Mr Rippon mae yn fodlon cyfarfod a'r Cyngor i drafod yr adroddiad. Nid oes pris ychwanegol am y cyfarfod. Penderfynwyd bod gwahoddiad yn cael ei anfon at Mr Rippon i gyfarfod nesaf y Cyngor. Nid yw Mr Rippon ar gael ar nos Fawrth felly penderfynwyd anfon ato i gyfarfod ar Nos Iau 18 Ionawr 2018.	<b>ISBWYLLGOR CYFLOGAETH</b>
7.4	Mae llinellau badminton wedi eu hail osod.	
7.5	Mae pedair ffan yn islaw'r neuadd yn sychu y tamprwydd. Mae rhai o elfennau'r rhaglen waith yn dal i ddisgwyl sylw'r adeiladwr.	
7.6	Mae angen sortio amryw o stwff Gwyl y Felin, a hefyd gwaith o storio rhai adnoddau'r neuadd. Gofynnodd y Cadeirydd os fyddai y Cyngor yn barod iddo archebu bocsys plastic i'r perwyl hyn. Cytunodd y Cyngor i hyn gael ei wneud ynghyd ag arian i brynu coed i wneud silffoedd.	<b>DW</b>

**CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**

7.7	Trafodwyd y mater o efallai bod Gwasanaeth Clwb Ieuencid Gwynedd yn dirwyn i ben a dim ond clybiau ar y cyd fydd yn bodoli. Ystyriaeth i'w roi ar gyfer sefydlu Clwb unigol yn y Felin.	
<b>8.0</b>	<b>ADRODDIAD COFEB Y CLOC</b>	
8.1	Mae angen bylbiau newydd o fewn y cloc hefyd mae angen newid ysgol bren o fewn y cloc i un aliminiwm.	
<b>9.0</b>	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
9.1	C17/1117/20/AM – cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ol i godi tri thy, un ohonynt yn fforddiadwy, ynghyd a mynedfa gerbydol, mynefeydd troed a lle parcio i hyd at 9 cerbyd, dymchwel storfa bresennol a rhoi adeilad newydd yn ei le i gynnwys storfeydd. (cais diwygiedig i gais a wrthodwyd yn flaenorol – C16/1235/20/AM) – Pant Erys, 34 Glan y Môr Y Felinheli LL56 4RQ. – GWRTHWYNEBU ar sial <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nid yw dyluniad o'r datblygiad yn gweddu i'r ardal</li> <li>2. Byddai tynnu coed o bosib yn cael effaith a'r fyd natur ynghyd a draenio naturiol y tir ac o ganlyniad yn achosi llifogydd.</li> <li>3. I sicrhau parcio bydd llawer o dir yn cael ei symud a byddai hyn o bosib yn cael effaith a'r sefydlogrwydd y llethr.</li> </ol>	<b>CLERC</b>
<b>10.0</b>	<b>ADRODDIAD Y FYNWENT</b>	
10.1	Dywedwyd bod toriad olaf y gwair wedi ei gwblhau.	
<b>11.0</b>	<b>ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH</b>	
11.1	Dim ond un amcanbris ar gyfer gwaith o ail farcio y Maes parcio. Y Pris sydd wedi ei dderbyn yw £500 gan Roger Bratt o Dyffryn Ardudwy. Cytunodd y Cyngor i symud ymlaen a gofyn iddo wneud y gwaith tua diwedd mis Ionawr.	<b>PS/EW</b>
<b>12.0</b>	<b>ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU</b>	
12.1	Mae difrod wedi ei wneud i Lwybr Afon Heylun a Lwybr Allt Gam.	CLERC
12.2	Mae llwybr ger y "railings" ar ochr Gaernarfon o'r Cae Chwarae gyda rhwystr i rhwystro plabnt rhag mynd yn syth i'r ffordd. Mae'r slabiau y llwybr yn gorffen yn y fan honno yn golygu bod defnyddwyr y cae chwarae yn gorfod cerdded a'r laswellt a phridd a mwd wedi tywydd drwg. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd i wneud cais i'r llwybr gael ei ymestyn.	CLERC
<b>13.0</b>	<b>ADRODDIAD PRIFFYRDD</b>	

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

13.1	Rhoddwyd wybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn archwilio y traffig a'r Ffordd Gaernarfon. Bydd teclyn cyfri traffig yn cael ei osod yno yn fuan ac yna bydd adroddiad yn cael ei anfon ymlaen at y Cyngor Cymuned wedi hyn gael ei gwblhau.	CLERC
<b>14.0</b>	<b>PROSIECTAU</b>	
	<b>Dim</b>	
<b>15.0</b>	<b>TOILEDAU CYHOEDDUS</b>	
	<b>Dim</b>	
<b>16.0</b>	<b>CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL</b>	
	Dywedwyd mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol ar gyfer afonydd bychain yr ardal ac nid Cyfoeth Naturiol Cymru; bydd y llifogydd diweddar yn derbyn sylw Cyngor Gwynedd mewn archwiliad a bydd adroddiad yn dilyn yn fuan. Bydd y Cyngor Cymuned angen copi o'r adroddiad a chyfarfod i wneud asesiad risg. Dywedwyd hefyd bod Llync dwll wedi diwgwydd yng Ngherrig yr Afon a mae hyn yn derbyn sylw brys gan Cyngor Gwynedd.	
<b>17.0</b>	<b>GWEFAN</b>	
17.1	Gobeithir bydd y Wefan newydd yn fyw ar y 15fed o Ionawr 2018.	
<b>18.0</b>	<b>MATERION AMRYWIOL</b>	
	<b>Dim</b>	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 21:41	
Llofnod:		Dyddiad: